**Alun Davies AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**
**Minister for Natural Resources and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-385
Ein cyf/Our ref AD-/00827/13

William Powell AC
AC Canolbarth a Gorllewin Cymru
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Mehefin 2013

Annwyl Bill,

**ADRODDIAD AR EFFEITHIAU LLUSERNAU AWYR A BALWNAU HELIWM**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Mehefin yn gofyn pa gamau a gymerir yn awr ar ôl cyhoeddi'r adroddiad ymchwil ar lusernau awyr a balwnau heliwm.

Mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad yn awgrymu nad ydynt yn cael llawer o effaith ar yr amgylchedd ac mai ychydig o berygl sydd iddynt achosi niwed neu farwolaeth i lawer o dda byw. Ar sail y canfyddiadau hyn, byddai'n anodd cyfiawnhau gwahardd naill ai lusernau awyr na balwnau heliwm, gan fod unrhyw gamau a gymerir yn gorfod bod yn gymesur â'r broblem. Fodd bynnag, rwy'n dal yn bryderus am y mater a byddaf yn parhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid, yn enwedig Cadwch Gymru'n Daclus, er mwyn sicrhau bod llusernau awyr a balwnau heliwm yn cael cyn lleied o effaith ag y bo modd. Mae fy Mhrif Swyddog Milfeddygol, Dr Christianne Glossop eisoes wedi cyhoeddi cyngor i godi ymwybyddiaeth o'r effeithiau posibl ar les da byw ac adeiladau fferm a bydd yn gwneud hynny eto cyn hir.

Byddaf yn ysgrifennu at awdurdodau lleol i'w hannog i ystyried peryglon llusernau awyr a balwnau heliwm yn eu hardaloedd nhw. Mae'r adroddiad yn cyflwyno tystiolaeth bod dau o awdurdodau lleol Cymru eisoes wedi cyflwyno gwaharddiad gwirfoddol ar ryddhau llusernau awyr ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol, yn atal pobl rhag rhyddhau'r llusernau ar raddfa fawr ac yn codi ymwybyddiaeth yn lleol; rwyf am annog awdurdodau lleol eraill i wneud yr un peth. Rwyf hefyd am godi'r mater gyda sefydliadau elusennol er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried effeithiau ehangach rhyddhau balwnau neu lusernau awyr yn eu digwyddiadau.

Rwy'n deall bod Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA) yn cynghori Gwasanaethau Tân ac Achub i annog pobl i beidio â defnyddio llusernau awyr trwy:

- gydweithio â'u swyddfeydd safonau masnach lleol i reoli'r defnydd a wneir ohonynt a'r ffordd y cânt eu dylunio;
- cydweithio â'u hawdurdod heddlu lleol i'w hannog i beidio â chymeradwyo rhoi trwyddedau digwyddiadau ar gyfer digwyddiadau lle bwriedir rhyddhau llusernau;
- cydweithio â thrwyddedwyr digwyddiadau lleol i annog pobl i beidio â defnyddio'r llusernau hyn; a
- mynd ati gyda phartïon a chanddynt fuddiant, fel yr heddlu lleol a'r Awdurdod Hedfan Sifil, i edrych ar y posibilrwydd y gellid dwyn achosion cyfreithiol.

Yng Nghymru, mae Pwyllgor Lleihau Risgiau Cymunedol CFOA yn pennu'r cyfeiriad strategol ar ddiogelwch, addysg ac ymgysylltu cymunedol; rhoddir y newyddion diweddaraf ar faterion sy'n ymwneud â'r DU gyfan trwy eu cyfarfodydd, cyfeirir at asesiadau risg lleol a datblygir strategaethau diogelwch cymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod yr adroddiad ymchwil yn dweud bod peryglon i awyrennau ac ati ymhlith y peryglon mwyaf a achosir gan lusernau awyr a balwnau heliwm. Nid yw diogelwch yn yr awyr wedi'i ddatganoli a mater i'r Adran Drafnidiaeth a'r Awdurdod Hedfan Sifil yw cymryd camau i fynd i'r afael â'r peryglon hyn. Yn ogystal, mae'r adroddiad ymchwil yn sôn bod llusernau awyr coch yn gallu arwain at alwadau diachos i Wylwyr y Glannau ac, er nad yw materion sy'n ymwneud â Gwylwyr y Glannau wedi'u datganoli, mae fy swyddogion i wedi cysylltu â Rheolwr Argyfyngau Sifil Posibl Gwylwyr y Glannau Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r adroddiad.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod ei bod yn bwysig darparu gwybodaeth briodol i'r cyhoedd fel y gall pobl wneud dewisiadau gwybodus wrth benderfynu a ydynt am ryddhau llusernau awyr a balwnau heliwm ai peidio. Er bod gwybodaeth benodol y dylid ei chyhoeddi ynghylch rhyddhau'r pethau hyn ger meysydd awyr, meysydd glanio a'r glannau, credwn y byddai'n gwneud synnwyr i hyn gael ei ystyried fel rhan o'r wybodaeth gynhwysfawr a roddir i'r cyhoedd am y pethau hyn. Er nad yw'n fater datganoledig, rydym yn cefnogi Llywodraeth y Deyrnas Unedig wrth iddynt symud ymlaen â'r gwaith o sicrhau bod y gwneuthurwyr yn rhoi rhybuddion clir ar y pecynnau. Byddaf yn cadw golwg fanwl wrth i Lywodraeth y DU gydweithio â manwerthwyr, gwneuthurwyr ac eraill i helpu'r cyhoedd i ddeall sut i ddefnyddio'r pethau hyn mewn ffordd gyfrifol. Yn ogystal, bydd fy swyddogion yn cyhoeddi dolenni ar wefan Llywodraeth Cymru yn arwain at ganllawiau ar sut i ddefnyddio llusernau awyr yn ddiogel.

Yn gywir

**Alun Davies AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food